**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**William Powell AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

24 Ebrill 2015

Annwyl William,

**Cais am wybodaeth gan fyrddau iechyd Cymru**

Diolch am eich llythyr ynglŷn â'r uchod, a ddaeth i law ar 9 Ebrill 2015.

Mae'ch llythyr yn gofyn a yw byrddau iechyd Cymru yn dueddol o oedi cyn anfon gwybodaeth y bydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ("y Pwyllgor") yn gofyn amdani. Gallaf gadarnhau nad yw'r Pwyllgor wedi cael yr un anhawster â'r Pwyllgor Deisebau yn y cyswllt hwn.

Mae'r Pwyllgor yn arbennig o ddiolchgar i Gonffederasiwn GIG Cymru am ei gymorth yn y cyswllt hwn. Bydd ei staff yn gweithio gyda chlercod y Pwyllgor i sicrhau bod y wybodaeth y gofynnir amdani:

- yn dod gan swyddogion mwyaf perthnasol y byrddau iechyd;
- yn cael ei darparu mewn da bryd; ac
- yn ddigon manwl i alluogi'r Pwyllgor i gwblhau ei waith yn effeithiol.

Yn gywir,

**David Rees AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA
Ffôn / Tel: 0300 200 6354
E-bost / Email: SeneddIechyd@Cynulliad.Cymru/
SeneddHealth@Assembly.Wales
Trydar / Twitter: @seneddiechyd / @seneddhealth
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh